CIWB

## Tasg 1

# Eisiau mynd?

Yn 2024, bydd grŵp o bobl yn mynd i fyw ar blaned Mawrth.

Os ydy pobl eisiau mynd, rhaid anfon fideo.

1. Gwnewch sgript fideo.

   Rhaid dweud:
   - pwy ydych chi
   - ble rydych chi'n byw
   - beth rydych chi'n hoffi gwneud
   - pam rydych chi eisiau byw ar blaned Mawrth.

Beth am recordio'r gwaith? Gallwch chi siarad â'r camera, wrth gwrs, ond hefyd, beth am ffilmio'r ardal lle rydych chi'n byw a'ch hobi chi ac yna gallwch chi drosleisio'r ffilm.

2. Rydych chi'n mynd i fyw ar blaned Mawrth.
   Beth hoffech chi fynd gyda chi?
   - Pa ddillad?
   - Beth arall?

   Gwnewch restr ac yna trafodwch hyn mewn grŵp.

   Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| Beth hoffet ti fynd gyda ti?<br>Beth wyt ti eisiau mynd gyda ti? | Hoffwn i fynd â … achos …<br>Dw i eisiau mynd  â … achos …<br>Rhaid i fi/mi fynd â … achos … |

Cofiwch, rydych chi'n mynd i'r blaned am byth!

3. Mae'r papur lleol yn gofyn i chi ysgrifennu llythyr yn sôn am eich taith i blaned Mawrth.
   Dwedwch:
   - pam rydych chi eisiau mynd
   - beth rydych chi'n mynd gyda chi
   - sut rydych chi'n paratoi
   - sut rydych chi'n mynd i deithio
   - beth rydych chi'n mynd i wneud ar y blaned
   - sut rydych chi'n teimlo.

4. Hoffech chi fynd i blaned Mawrth i fyw am byth? Pam?

Dyma ychydig o help i chi:

Hoffwn, achos dw i'n hoffi / mwynhau …
Hoffwn, achos hoffwn i …
Hoffwn, achos dw i eisiau …

Na hoffwn, achos dw i ddim yn hoffi / mwynhau …
Na hoffwn, achos hoffwn i ddim …
Na hoffwn, achos dw i ddim eisiau …
Na hoffwn, achos dw i'n caru fy nheulu / ffrindiau.
Na hoffwn, achos mae'n well gen i … / mae'n well gyda fi …

| Help | |
|---|---|
| gallwch chi | you can |
| ardal | area |
| trosleisio | to voice over |